## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Ddeddf Plant 2004(**1**) ("y Ddeddf") ac mae'n gymwys i Gymru.

Mae'r Gorchymyn yn dod ag adran 26 o'r Ddeddf i rym ar 31 Mawrth 2006. Daw adrannau 28(1)(a) i (c) ac (i), (2) (i'r graddau y bônt yn berthnasol i'r personau a'r cyrff y cyfeirir atynt yn isadran (1)(a) i (c) ac (i)), (3) a (4), 44, 48, 53, 54, 55 a 61, Atodlen 4 (ac eithrio paragraff (5) o'r Atodlen honno) a rhannau 1 (i'r graddau y mae yn berthnasol i adran 5 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**2**)), 2 a 4 o Atodlen 5 i rym ar 1 Ebrill 2006. Daw adran 27 a rhan 1 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, ac eithrio mewn perthynas â pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989 (**3**)) o Atodlen 5 i rym ar 1 Medi 2006. Daw adrannau 30, 32, 33, 34, 50, 52 a 56 i rym ar 1 Hydref 2006.

(**1**) 2004 (p.31).
(**2**) 2002 (p.38).
(**3**) 1989 (p.41).